



# The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

3/18 Eagle Wing  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaeth 0303 444 5000  
Cwsmeriaid:  
e-bostl: brechfaconnection@pins.gsi.gov.uk

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN020016

Dyddiad: 1 Mawrth 2016

Annwyl Syr/Madam

## **Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) –Rheol 8(3), Rheol 17 ac a89(3) ac a102A Deddf Cynllunio 2008 (DC 2008)**

### **Cais gan Western Power Distribution (De Cymru) plc am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Cyswllt Coedwig Brechfa**

#### **Penderfyniad gweithdrefnol**

Ar 25 Chwefror 2016, cyflwynodd yr Ymgeisydd gais i newid ar ffurf Opsiwn B ar gyfer y prosiect. Yn ôl yr opsiwn hwn, byddai dau rychwant o gyswllt trydanol ar ben tir (rhwng polyn rhif 84 a pholyn rhif 86) yn cael eu gosod o dan y ddaear yn Nhirlun Cofrestredig Dyffryn Tywi o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Mae'r dogfennau hyn wedi'u cyhoeddi ar dudalen we'r prosiect:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/Wales/Brechfa-Forest-Connection/>

Yn ei gais, mae'r Ymgeisydd yn datgan bod y newidiadau wedi codi o ganlyniad i sylwadau gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyfoeth Naturiol Cymru ers cyflwyno'r cais. Nid yw'r opsiwn yn newid terfynau'r gorchymyn mewn unrhyw ffordd.

Mae'r Ymgeisydd yn dadlau nad yw'n ystyried bod angen y newidiadau hyn er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau sy'n deillio o'r prosiect, ac nid yw'n darparu unrhyw welliant ac, fel y cyfryw, mae'n dymuno parhau i hyrwyddo'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) drafft gwreiddiol (y mae'r drafft diweddaraf ohono'n ddyddiedig 19 Chwefror 2016 [REP5-023]) fel y dewis a ffeirir ganddo. Byddaf nawr yn cyfeirio at y GCD drafft gwreiddiol fel 'Opsiwn A'.

Mae'r Ymgeisydd, fel y gofynnwyd iddo drwy fy mhenderfyniad gweithdrefnol [PD-015], wedi cynnal ymgynghoriad ar Opsiwn B ac wedi cyflwyno'r wybodaeth hon ochr yn ochr â GCD drafft, cynlluniau tir a chynlluniau gwaith, Llyfr Gorchwyl ac adendwm i'r Datganiad Amgylcheddol ar gyfer Opsiwn B. Rwyf wedi ystyried y wybodaeth hon

ac wedi dod i'r casgliad y gellir archwilio GCD drafft Opsiwn B ac fe'i derbynnir i'r archwiliad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ynghlyn fy mhenderfyniad ar y gais i newid i'w weld ar ein wefan:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3742098>

Felly gwahoddir Partion â Buddiant i roi sylwadau ar y dogfennau hyn erbyn **Dyddiad Cau 6, sef Mawrth 17 2016**.

### Gwybodaeth Pellach

1. Yn ychwanegol i geisiadau am wybodaeth pellach a gyflwynwyd yn y Penderfyniad Gweithdrefnol dyddiedig dydd Iau 25 Chwefror 2016, rwyf yn gofyn i'r Ymgeisydd esbonio pam mae tîr plot A245, sy'n perthyn i Mr a Mrs Woods, yn parhau i fod yn terfynau'r gorchymyn os nad oes ei angen.
2. Os gwelwch yn dda, esboniwch pam fod Rhan 3 o'r Llyfr Gorchwyl ddim yn adlewyrchu fod plot A245 ddim ei angen.

Dylid cyflwyno ymateb a unrhyw ddogfennau wedi'i diweddarau i'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer Dyddiad Cau 6, 17 Mawrth 2016.

3. Ymhellach i ymateb yr Ymgeisydd i OM2-01, rwyf yn gofyn fod diweddariad yn cael ei ddarparu ar gyfer Dyddiad Cau 6, 17 Mawrth 2016.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae pob croeso i chi gysylltu â'r tîm achos.

Yn gywir

*Martin Broderick*

Martin Broderick  
Awdurdod Archwilio

Mae'n bosibl y rhoddir cyngor ynghylch gwneud cais am orchymyn caniatâd datblygu neu wneud sylwadau am gais (neu gais a gynigir). Fodd bynnag, nid yw'r ohebiaeth hon yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol eich hun yn ôl y gofyn.

Caiff cofnod o'r cyngor a ddarperir ei gofnodi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r person neu sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Caiff preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Gwybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.